



**GOFYNION POLISI COLEGAUCYMRU AR
GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU**

**THEMA 2: SYSTEM GYDLYNOL A CHYSYLLTIEDIG
SYDD YN CYNWYS CYMWYSTERAU HYBLIG
SY'N CAEL EU GWERTHFAWROGI**

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ehangu Thema 2 *Llywodraeth Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru* ColegauCymru. Ynghyd â'n hadroddiad *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno gweledigaeth a gweithredu ymarferol ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.¹

Crynodeb

Mae ColegauCymru yn amlygu'r angen i ddatblygu system gydlynol a chysylltiedig o gymwysterau sydd yn hyblyg ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd.

Yn unol â hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Ar y cyd â'r sector, cyflogwyr, a rhanddeiliaid allweddol, ddatblygu gweledigaeth ôl-16 gydlynol a system sydd yn mynd i'r afael â chystadleuaeth ddiangen, yn galluogi rheoleiddio cymwysterau yn gymesur ac yn effeithiol, ac yn gweithio er budd pob dysgwr a staff, gan ddefnyddio adolygiad gweinidogol neu ddull arall fel sylfaen.
- Defnyddio pwerau presennol i ddatblygu dull o gyflwyno a rheoleiddio cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5, p'un ai trwy sefydlu Cyngor Achredu Technegol ar gyfer Cymru neu orchymyn a rheoleiddio partneriaeth a chydweithredu rhwng Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch a chyflogwyr.
- Cynnal adolygiad o Gymwysterau Cymru a'i gyfrifoldebau gyda'r bwriad o wneud newidiadau priodol i'w sylfaen cyfreithiol, ei swyddogaethau a'i allu (fyddai'n ei alluogi i gynnal y Cyngor Achredu Technegol os oes angen).
- Darparu mynediad at gyllid myfyrwyr ar gyfer rhaglenni Lefel 4 a Lefel 5 ynghyd â datblygu cyfrifon dysgu personol hyblyg, sy'n dibynnu ar brawf modd/incwm ar gyfer oedolion (ôl-25).
- Cyflwyno system fwy hyblyg o ddysgu a chymwysterau nad ydynt yn seiliedig ar amrywiadau o raglenni 35 wythnos/1- neu 2 flynedd, wedi eu cyflwyno'n bennaf mewn 'oriau ysgol' traddodiadol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant proffesiynol wedi ei ddiweddarau, yn ogystal â chymwysterau nad ydynt wedi eu clymu i un lefel benodol (a gallai gynnwys elfennau priodol o Lefelau 2-4).
- Ei wneud yn haws i unedau dysgu llai, yn hytrach na chymwysterau llawn, gael eu cydnabod, i fod yn gludadwy, ac i ddysgwyr allu datblygu'r rhain dros amser, gan wneud defnydd gwell o brosesau Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) effeithiol.

¹ John Buchanan et al., *Enabling Renewal: Further Education and Building Better Citizenship, Occupations and Business Communities in Wales*, ColegauCymru, 2021, ar gael yn:

<https://www.colleges.wales/image/publications/reports/Enabling%20Renewal%20-%20FE/Enabling%20Renewal%20-%20FE.pdf>

Datblygu gweledigaeth ôl-16 gydlynol

Mae addysg ôl-orfodol yng Nghymru ar groesffordd ymysg effaith COVID-19, Brexit, a ffactorau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach.² Yn hyn o beth, mae angen datblygu'r dirwedd ôl-16 gydlynus a chydlynol ar y cyd â chyflogwyr, rhanddeiliaid, a'r sector yn ehangach. Ar wahân, yng Nghyfarwyddyd un, mae Colegau Cymru yn mynd i'r afael â'r ffordd y mae'r sylfaen statudol bresennol ar gyfer addysg yn creu 'dibyn' addysg yn 16 oed ac yna yn 18 oed oni bai bod dysgwyr yn gwneud taith linelllog gan bontio rhwng yr ysgol neu'r coleg ac addysg uwch. Mae cyflwyno cymwysterau yn gwaethygu'r sefyllfa hon ac yn breintio dilyniant academiaidd uwchlaw'r cyfle i gyraedd cymhwysedd galwedigaethol lefel uwch.

System gydlynol

Mae'r sector addysg ôl-16 yng Nghymru'n cael ei rwystro gan gydweithredu annigonol rhwng sefydliadau. Mae dyblygu adnoddau rhwng, ac ar draws, chweched dosbarth, addysg bellach, ac addysg uwch. Yn y pen draw, mae absenoldeb gweledigaeth sector cyffredinol.³ Mae *Y Weledigaeth Strategol ar gyfer y Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yng Nghymru ac Egwyddorion Newid* cysylltiedig a lanswyd ar ddiwedd 2020 yn mynd rhan o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r bwlch hwn ond nid ydynt yn cynnwys llawer o ran manylion gweithredu.⁴ Mae anghenion dinasyddion sydd yn gwneud cynnydd i astudio ar lefel galwedigaethol uwch wedi eu cyfuno hefyd â'r heriau penodol sydd yn amlwg yn narpariaeth gynaliadwy addysg uwch yng Nghymru pan na ddylai hyn fod yn wir.

Mae'r fethodoleg ddyrannu ôl-16 bresennol yn hybu cystadleuaeth sefydliadol. Ar hyn o bryd, mae dyraniadau chweched dosbarth yn cael eu cyfrifo i ddechrau trwy luosi nifer y dysgwyr yn y flwyddyn flaenorol a fynychodd y chweched dosbarth (cyfraddau dychwelyd cyfartalog) gyda'r cyllid cyfartalog fesul rhaglen, gyda thaliadau chwyddo ar gyfer dengraddau amddifadedd, gwledigrwydd gofodol, a chyfrwng iaith. Yn dilyn hyn, mae cyllidebau addysg bellach yn cael eu gosod o fewn gweddill y dyraniad.⁵ Dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu ei methodoleg ddyrannu i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y dysgwr a sicrhau bod fformiwlâu ariannu yn seiliedig ar yr hawl statudol newydd ei sefydlu i addysg hyd at 25 oed neu gymhwyster Lefel 3. Dylai methodoleg i'r dyfodol fod yn gydnerth

² Yr Athro Ellen Hazelkorn, *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru*, (2016), tud.10.

³ Ibid, tud. 9.

⁴ Llywodraeth Cymru, *Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO): Diwallu Anghenion a Dyheadau Pobl, Busnesau a Chymunedau Cymru o ran Addysg, Hyfforddiant ac Ymchwil* (2020), [strategic-vision-post-compulsory-education-and-training.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/principles-for-change-post-compulsory-education-and-training.pdf) (gov.wales); Llywodraeth Cymru, *Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO), Egwyddorion ar gyfer Newid, Cefnogi Gweledigaeth Strategol* (2020), <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/principles-for-change-post-compulsory-education-and-training.pdf>

⁵ Joseph Champion, *Research Briefing: A quick guide to post-16 education funding* (2018), tud.4, <https://senedd.wales/media/rxmjdfm/18-028-web-english.pdf>.

a rhoi eglurder a chydlyniad. Mae'n rhaid iddi sicrhau nad yw dysgwyr ôl-16 yn cael eu rhwystro gan ragfarn sefydliadol a'u bod yn gallu cael mynediad at gyrsiau sydd yn cynyddu potensial dysgwyr.

Trwy newid y fethodoleg ariannu bresennol a symud tuag at fethodoleg lle mae anghenion dysgwr unigol yn cael eu blaenoriaethu, byddai cyfle pellach i gymryd rhan mewn astudiaeth cyfrwng Cymraeg. Gallai'r rheiny sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl sydd wedi mynychu ysgolion Saesneg gael cyswllt â chysiau ôl-16 sydd yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg lle mae hynny o fudd ac yn briodol.

Ynghyd â newid y fformiwla ariannu ôl-16, dylai fod ymagwedd gydlynol tuag at weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o uwch arweinwyr mewn ysgolion yn nodi nad yw eu perthynas â cholegau lleol mor gryf a'u perthynas ag ysgolion lleol, ac yn datgan bod hyn oherwydd teimlad o gystadleuaeth a diffyg tryloywder ac ymddiriedaeth rhwng y sectorau.⁶ Dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu a diwygio'r deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y gwaith partneriaeth ar draws y sector ôl-16 er budd dysgwyr. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru hefyd weithredu argymhellion Adolygiad Thematig Estyn o Bartneriaethau Ôl-16.⁷ Nid yw'r darpariaethau drafft gyda Bil arfaethedig Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn ddigon cadarn i'r perwyl hwn a dylid archwilio dull gwell o gydweithredu. Safbwynt Colegau Cymru yw bod y darpariaethau a amlinellir gan ymgynghoriad 2020 Llywodraeth Cymru yn ddiffygiol o ran creu system gydlynol a chysylltiedig o addysg drydyddol, ond yn hytrach ei fod yn cyfundrefnu gwendidau'r model presennol mewn deddfwriaeth newydd.

Gallai darparu Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) gael ei ddiwygio hefyd er mwyn lleihau'r gystadleuaeth ddiangen sydd yn deillio o'r broses dendro i gyflwyno darpariaeth prif ffrwd. Dylid cyflwyno contractau DSW trwy fformiwla wedi ei neilltuo sydd yn galluogi colegau i gyflwyno rhaglenni yn effeithiol ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr a bod o fudd cymesur yn unol â'u proffil. Dylid annog cydweithredu rhwng darparwyr hyfforddiant annibynnol gyda SABau yn gallu rhoi sicrwydd gwell i'r darparwyr hynny yn unol â chaffaeliad lleol gan y coleg.

Datblygu system sydd yn gweithio er budd dysgwyr a staff

Dylid datblygu strategaeth holistaidd a thryloyw er mwyn sicrhau bod SABau a chweched dosbarth yn gweithio'n gydweithredol i ehangu'r hyn y mae'r cwricwlwm yn ei gynnig yng Nghymru, ac i roi digon o wybodaeth i'r staff i ddiogelu ac addysgu dysgwyr.

Yn unol â deddfwriaeth bresennol, os bydd dysgwr yn trosglwyddo o un ysgol i un arall, mae'n rhaid i Ffeil Drosoglwyddo Gyffredin (FFDG) fynd gyda nhw. Fodd bynnag, os yw dysgwr yn trosglwyddo i SAB, nid yw'r ffeil hon yn cael ei throsglwyddo.⁸ Yn y pen draw, nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol pan fyddant yn trosglwyddo i sefydliad gwahanol, ac nid oes

⁶ Estyn, *Partneriaethau ôl-16: Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau*, 2021, <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-01/Post-16%20partnerships%20en.pdf>, tud.12.

⁷ Ibid.

⁸ Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus*, (2018), <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-04/180423-tertiary-education-and-research-commission-for-wales-consultation-document.pdf>, tud. 43.

llawer o ddarparwyr yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar *Bontio ôl-16 effeithiol a rhannu data*.⁹ Gall y diffyg cydweithredu hwn effeithio ar ddysgwyr am nad yw staff SAB yn ymwybodol yn aml o'u cyflawniadau a'u hanghenion llesiant pan fyddant yn newid sefydliadau. Mae'r ymateb i bandemig COVID-19 wedi dwysáu'r pryderon yn ymwneud â'r diffyg gwybodaeth hwn wrth i brofiad dysgwyr o'r cwricwlwm gael ei amharu.

Nid yw llawer o ddysgwyr yn cael digon o gyngor er mwyn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am yr ystod lawn o gyfleoedd dysgu ôl-16 sydd ar gael.¹⁰ Os nad oes modelau trydyddol wedi cael eu mabwysiadu, mae dewisiadau ôl-16 dysgwyr wedi eu cyfyngu yn aml gan ystod o ffactorau yn cynnwys opsiynau sefydliad sydd ar gael, a ffocws cyffredinol ar ddilyn llwybrau academiaidd yn hytrach na rhai galwedigaethol, waeth beth fo anghenion dysgwyr unigol. Mae ysgolion â chweched dosbarth yn aml yn arwain ac yn cynghori dysgwyr i aros yn eu hysgol yn hytrach na rhoi gwybodaeth briodol iddynt am yr opsiynau addysg a gyrfa mwyaf priodol.¹¹ Yn ei hanfod, mae mynediad at lwybrau ôl-16 dysgwyr yn cael eu penderfynu gan ddewisiadau polisi a wneir gan awdurdodau lleol unigol. Mae mynediad at wybodaeth yn cael ei bennu gan gydweithredu sydd eisoes yn bodoli rhwng ysgolion a darparwyr eraill, a lleoliad daearyddol. Mae diffyg strategaeth gydlynol rhwng sefydliadau addysgol yn aml yn golygu nad yw dysgwyr yn ymwybodol o opsiynau a allai fod yn fuddiol mewn SABau fel astudio prentisiaethau iau yn 14-16 oed, dewis llwybr galwedigaethol, neu astudio pynciau academiaidd mewn sefydliad â chyfleusterau penodol i gwrs gwell a mwy o fâs critigol o ddysgwyr o'r un anian. Yn y pen draw, dylai pob dysgwr gael cyngor cydlynus, diduedd ar eu dyheadau o ran eu gyrfa. Dylai diddordebau a'r buddion i'r dysgwyr fod wrth wraidd y system ôl-16. Mae hyn weithiau mewn gwrthgyferbyniad â'r system bresennol lle gall system or-gystadleuol beryglu'r budd i'r dysgwr.

Rheoleiddio cymesur ac effeithiol

Mae SABau yn sefydliadau eithriadol o amrywiol ac yn hwyluso ystod eang o weithgareddau dysgu. Tra'n darparu amrywiaeth o wasanaethau, mae colegau wedi creu safonau uchel o addysgu a dysgu yn barhaus. Maent hefyd yn darparu gofod diogel i ddysgwyr â chefnidiroedd ac anghenion gwahanol ac yn gwneud defnydd da o adnoddau mewnol.¹²

Er gwaethaf statws addysg bellach fel sector risg isel â pherfformiad uchel yn hanesyddol, mae ei amrywiaeth yn golygu ei fod yn destun nifer sylweddol o archwiliadau ac arolygiadau. Mae'r rhain yn eu tro yn coleddu system o fiwrocratiaeth a dyblygu diangen mewn llawer o enghreifftiau. I

⁹ Estyn, *Partneriaethau ôl-16*, (2021), <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-01/Post-16%20partnerships%20en.pdf>, tud. 14.

¹⁰ Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru 2018-2019*, tud.52, [https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-07/Annual Report 2018 2019 en 2.pdf](https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-07/Annual%20Report%202018%202019%20en%202.pdf).

¹¹ Estyn, *Cyrsiau Safon Uwch mewn Dosbarthiadau Chweched a Cholegau Addysg Bellach* (Tachwedd 2018), <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/A%2520levels%2520in%2520sixth%2520forms%2520and%2520further%2520education%2520colleges.pdf>, tud.8.

¹² Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru (2019-2020)*, https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-12/ESTYN%20Annual%20Report%202019-2020_full-report.pdf, tud. p82.

ymhelaethu, gan fod SABau yn cynnal ystod o wasanaethau, mae arolygiadau ansawdd a sicrwydd yn cael eu cynnal ar wahân gan Estyn ar wasanaethau addysg bellach, darpariaeth dysgu seiliedig ar waith, a'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gmuned. Ym mhob un o'r tri maes, mae canllawiau arolygu Estyn yn amlinellu'r defnydd o adnoddau, darpariaeth cyfleoedd Cymraeg gan ddarparwyr, gwasanaethau cymorth darparwyr ac arferion diogelu darparwyr fel meysydd arolygu allweddol.¹³ Fodd bynnag, mewn llawer o enghreifftiau bydd arolygiadau'n cael eu dyblygu gan fod gwasanaethau darparwyr a gweithleoedd dysgwyr yn aml-bwrpas ac yn cael eu defnyddio ar draws mathau gwahanol o ddarpariaeth. Mae'r mater o ddyblygu arolygiadau gwasanaethau darparwyr yn cael ei amlygu ymhellach wrth ystyried gofynion systemau sicrwydd prifysgolion ac adolygiadau yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ar gyfer darparu astudiaeth addysg uwch mewn addysg bellach. Cafodd y mater hirsefydlog hwn ei gydnabod yn 2013 fel biwrocratiaeth ddi-angen ac mae'n parhau fel rhwystr i ddarparu'r system addysg bellach¹⁴. Yn hytrach na cheisio darparu ymagwedd 'unffurf i bawb' tuag at sicrhau ansawdd, dylai Llywodraeth nesaf Cymru geisio annog cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau rheoliadol.

Cyflwyno a rheoleiddio cymwysterau Lefel 4 neu Lefel 5

Fel yr amlinellir gan *Adolygiad Diamond*, lle y bo'n briodol, dylai SABau allu gwneud cynnig penodedig i fyfyrwyr a chyflogwyr ym maes addysg dechnegol uwch trwy ddarparu cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5.¹⁵ Wrth i'r etholiad nesáu, mae Colegau Cymru yn poeni bod y mewnwleidiad pwysig hwn wedi cael ei ddiystyru yn y Bil CADY drafft. Bydd anwybyddu'r angen i ddarparu llwybrau ategol fel y rhagwelir gan Syr Ian Diamond yn gwaethygu, yn hytrach na datrys, anghydraddoldebau presennol. Mae cyfran is o bobl yng Nghymru yng nghaffael cymwysterau proffesiynol technegol nag mewn economïau datblygedig eraill.¹⁶ Mae gan 9.1% o boblogaeth Cymru sydd yn oedolion gymhwyster Lefel 4 neu Lefel 5 ar hyn o bryd.¹⁷ O'i gymharu â hyn, mae'r ffigur dros 15% yn UDA ac Awstralia, ac yn 20% yn yr

¹³ Estyn, *Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu dysgu seiliedig ar waith, Addysg Bellach a Dysgu Oedolion yn y Gymuned* (2019), <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Guidance%2520handbook%2520for%2520the%2520inspection%2520of%2520community-based%2520adult%2520learning%25202019.pdf>, <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Guidance%2520handbook%2520for%2520the%2520inspection%2520of%2520WBL%2520providers%2520-%25202019.pdf>, <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Guidance%2520handbook%2520for%2520the%2520inspection%2520of%2520FE%2520colleges%2520-%25202019.pdf>

¹⁴ Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, *Adolygiad o'r Safon Ansawdd ôl-16* (2013), <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/130916-review-post-16-quality-standard-en.pdf>, T20. (Seasneg yn unig)

¹⁵ Adolygiad Diamond, *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*, <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-drefniadau-cyllido-addysg-uwch-chyllid-myfyrwyr-yng-nghymru> (2016), tud. 11.

¹⁶ Scott Kelly, *Raising productivity by improving higher technical education* (2015), https://www.hepi.ac.uk/wp-content/uploads/2015/07/productivity_final_web.pdf, tud. 7.

¹⁷ Offeryn Dadansoddi EMSI.

Almaen.¹⁸ Yn y pen draw, mae prinder gweithwyr proffesiynol cymwys â chymwysterau technegol uwch yng Nghymru fel y gwelir mewn ymchwil yn amlinellu bod sectorau fel telathrebu ac atgyweirio a pheirianeg mecanyddol yn wynebu bylchau mewn sgiliau o ganlyniad i gymwysterau technegol anghyflawn yng Nghymru.¹⁹ Mae hyn er gwaetha'r camau a gymerir i ehangu mynediad at addysg uwch ac yn benodol i brifysgolion dros yr ugain mlynedd diwethaf. Prif ddiben unrhyw ddatblygiad polisi yn y maes hwn feddai i ddatblygu ystod eangach o gymwysterau a chysiau Lefel 4 a 5 i gael eu cyflwyno trwy SABau.

Mae SABau mewn sefyllfa berffaith i hwyluso cyflwyno'r cymwysterau hyn yn unol â'r galw am sgiliau a chyflogwyr oherwydd cysylltiadau presennol gyda diwydiant, cyfleusterau priodol a lefelau addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Yn ogystal, gan fod y cymwysterau hyn yn fwy cost effeithiol i'w cyflwyno na chymwysterau Lefel 6, dylid darparu cymhellion o ran cyflogwyr a chyllid y llywodraeth. Dylai opsiynau gael eu darparu hefyd i ddysgwyr posibl hunanariannu.

Mae Colegau Cymru wedi nodi dwy ffordd bosibl o ddatblygu a rheoleiddio'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, nid yw'r opsiynau hyn yn gynhwysfawr o bell ffordd a dylid annog mwy o drafodaeth ar y testun.

Cyflwyno Cyngor Achredu Technegol ar gyfer Cymru

Byddai Cyngor Achredu Technegol (CAT) ar gyfer Cymru yn rhoi achrediad cydnabyddedig a dibynadwy ar gyfer cymwysterau technegol uwch. Byddai CAT yn gorff annibynnol sydd yn darparu gwiriadau sicrwydd ansawdd ar addysgu a dysgu er mwyn sicrhau bod gofynion diwydiant ac economaidd yn cael eu bodloni. Defnyddir y model hwn mewn ystod o economïau perfformiad uchel fel yr Almaen a Canada. Mae prif fuddion cyflwyno CAT yn cynnwys rhoi hyder i ddysgwyr a'r gymuned bod cymwysterau technegol yn ddefnyddiol ar gyfer bodloni prinder sgiliau a galw gan gyflogwyr, maent yn rhoi fframwaith ar gyfer gwella ansawdd, effeithlonrwydd ac amrywiaeth rhaglenni technegol ac yn cefnogi system ailsgilio ac uwchsgilio fforddiadwy.²⁰

Gorfodi a rheoleiddio partneriaethau a chydweithredu rhwng sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch

Mae ymagwedd amgen yn eirioli perthynas fwy ymatebol, gefnogol a chydweithredol rhwng prifysgolion a SABau nad yw'n gaeth i ymagwedd reoliadol. Yn hytrach, dylai SABau a phrifysgolion weithio gyda chyflogwyr lleol a'r economi ranbarthol i gynnig cyfleoedd dysgu lleol o ansawdd uchel.

¹⁸ Scott Kelly, *Raising Productivity* (2015), https://www.hepi.ac.uk/wp-content/uploads/2015/07/productivity_final_web.pdf, tud. 17.

¹⁹ G. Mason, *Employer Data in Employment and Skills: Issues in the UK* (2008), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/936388/131120_FINAL_literature_review_for_publication.pdf.

²⁰ Association of Colleges, *Breaking the Mould: Establishing a Technical Education Accreditation Council* (2015), tud. 8, <https://www.aoc.co.uk/sites/default/files/Technical%20Education%20Accreditation%20Council.pdf>.

Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys, trwy gydweithredu, bod gan SABau a phrifysgolion grwpiau targed o ddysgwyr gwahanol ac mae'n cynnig cyrsiau ar y cyd er bydd y dysgwr.

Ni ddylai SABau farchnata eu hunain fel cystadleuaeth i brifysgolion. Yn hytrach, dylai SABau a phrifysgolion wneud defnydd o'u nodweddion penodol i ddarparu addysg o'r safon uchaf a'r cyfle gorau ar gyfer y dysgwr unigol. Ar gyfer SABau, dylai hyn gynnwys parhau i ddarparu Lefel 4 presennol hyd at Lefel 6 i ddysgwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o nodweddion fel dosbarthiadau llai, arbenigedd technegol, a chaniatáu astudio ynghyd ag ymrwymadau gwaith. Yn y cyfamser, ni ddylai SABau o reidrwydd gystadlu gyda phrifysgolion trwy ymestyn yn rhy bell i feysydd fel ymchwil academaidd. Yn hytrach, dylai SABau a phrifysgolion gael ymagwedd gydlynol a chydweithredol lle maent yn rhannu cyfleusterau ac adnoddau i ddarparu'r canlyniadau gorau ar gyfer dysgwyr ar y cyd â chyflogwyr lleol. I ysgogi'r cydweithredu hwn, ac i osgoi cystadleuaeth ddiangen, dylai'r sector AB gydweithio gyda CCAUC a chyda'u partneriaeth prifysgol bresennol. Wedi hynny, dylai Llywodraeth Cymru gynnig diogelwch i'r sector addysg bellach i sicrhau cydweithredu trwy neilltuo cyllid yn benodol ar gyfer pob sector.

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei roi ar brawf trwy bartneriaethau Coleg Cambria gyda Phrifysgolion Liverpool John Moores, Glyndŵr, a Bangor. Yn unol â'r galw gan gyflogwyr lleol, ymunodd Coleg Cambria yn ddiweddar gyda Redrow Housing a Phrifysgol Liverpool John Moores i gynnig gradd adeiladu tai neilltuol gyntaf y DU. Caiff y cwrs hwn ei addysgu trwy ddysgu yn yr ystafell ddosbarth yn y safleoedd perthnasol, yn ogystal â galluogi dysgwyr i gael profiad ymarferol, dysgu'n ddigidol a chael sesiynau tiwtorial.²¹ Trwy wneud yr argymhellad hwn, mae Colegau Cymru yn ystyriol o'r heriau sydd ymhlyg â gorfodi cydweithredu rhwng sefydliadau hunanlywodraethol.

Adolygiad o Gymwysterau Cymru

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru yn Awst 2015 ac mae'n gorff rheoliadol annibynnol a sefydlwyd i sicrhau bod cymwysterau yn effeithiol ar gyfer bodloni anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru ac i gynyddu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru.²²

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i adolygu Cymwysterau Cymru yn annibynnol ar ôl cyfnod penodol o amser. Mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru greu adroddiad blynyddol yn nodi sut mae wedi ymarfer ei swyddogaethau.²³ Fodd bynnag, nid yw'r broses hon yn caniatáu adolygiad annibynnol rheolaidd i sicrhau bod Cymwysterau Cymru'n gweithio er budd y sector addysg a bod ganddo'r pwerau priodol i gyflawni ei ddiben. Mae *Deddf Cymwysterau Cymru 2015* yn rhoi pwerau i wneud 'unrhyw

²¹ Coleg Cambria, *Redrow Teams Up with Academic Institutions to launch UK's First Dedicated Housebuilding Degree* (2018), <https://www.cambria.ac.uk/redrow-teams-up-with-academic-institutions-to-launch-uks-first-dedicated-housebuilding-degree/>, [Defnyddiwyd 09/02/2021].

²² Cymwysterau Cymru, *Pwy Ydym*, <https://www.cymwysteraucymru.org/cymraeg/amdanom-ni/cyflwyniad/pwy-ydym/> [Defnyddiwyd 26/01/2021]; *Deddf Cymwysterau Cymru 2015*. <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/section/3/enacted>.

²³ *Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Annual and other reports*, <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/schedule/1/paragraph/28/enacted>.

ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol’ ac ‘unrhyw ddarpariaeth bontio, ddarfodol neu arbed’ i Lywodraeth Cymru.²⁴ Byddai Llywodraeth Cymru y dyfodol yn gallu gwneud diwygiadau i wella’r broses graffu os ydynt yn ystyried bod hyn yn briodol.

Yn Lloegr, mae Ofqual yn cyflogi ‘bwrdd cynghori safonol’ sydd yn cynnwys arbenigwyr asesu annibynnol i adolygu ymchwil a gwneud argymhellion yn ymwneud â chynnal safonau cymwysterau.²⁵ Yn yr un modd, sicrhodd *Deddf Awdurdod Cymwysterau’r Alban 2002* fod ‘Cyngor Cynghori’ yn cael ei sefydlu fel rhan o Awdurdod Cymwysterau’r Alban (SQA). Mae’r Cyngor hwn yn rhoi cyngor parhaus i’r SQA a Gweinidogion yr Alban ac mae’n galluogi ‘darpariaeth gysylltiedig neu atodol sydd yn addas ym marn Gweinidogion yr Alban’.²⁶ Byddai o fudd i Gymwysterau Cymru ddilyn yr enghreifftiau hyn o strwythurau llywodraethu statudol, a chael eu hadolygu’n rheolaidd er mwyn bodloni nodau craidd y corff.

Gan fod *Deddf Cymwysterau Cymru (2015)* yn rhoi cyfle i roi darpariaeth ‘gysylltiedig’ a ‘phontio’, mae opsiwn i alluogi Cymwysterau Cymru i gynnal y Cyngor Achredu Technegol. Byddai hyn o fudd i gyfyngu ar fiwrocratiaeth a byddai’n helpu i ddatblygu fframweithiau sydd eisoes wedi eu sefydlu yn Cymwysterau Cymru. Gallai’r un ystyriaeth gael ei rhoi i sicrhau bod gan ysgolion, colegau a rhanddeiliaid eraill yr un modd o gymryd rhan yng ngwaith y sefydliad o reoleiddio cymwysterau cyffredinol ac academiaidd.

Mynediad at gyllid myfyrwyr ar gyfer rhaglenni Lefel 4 a 5

Gan ddatblygu’r syniad bod SABau yn hwyluso darpariaeth rhaglenni Lefel 4 a Lefel 5, mae angen i’r cyrsiau hyn fod yn hygyrch ac yn fforddiadwy. Dylai fod hawl gan ddysgwyr gael mynediad at gyllid myfyrwyr ond mewn rhai amgylchiadau, gallai dysgwyr gael eu hannog i hunanariannu os oes angen neu gael mynediad at gyllid gan eu cyflogwr.

Ar hyn o bryd, mae dwy ffordd o gaffael cymwysterau sydd yn gymwys ar gyfer cyllid myfyrwyr: trwy gorff dyfarnu sydd yn cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru, neu trwy brifysgol.²⁷ Nid oes gan SABau bwerau achredu hunanlywodraethol. Felly, os bydd SABau yn cyflwyno cymhwyster Lefel 4 neu Lefel 5 yn unol â galw’r diwydiant neu’r galw am sgiliau, ni fyddai gan y dysgwr hawl i gymorth ariannol i gael mynediad at gwrs neu gymhwyster perthnasol. Fel arall, os bydd cyllid unigolyn eisoes wedi cael ei ddefnyddio, dylai mynediad at gyrsiau fod o fewn cyrraedd yn hytrach na bod wedi eu gwahardd oherwydd cost.

²⁴ Deddf Cymwysterau Cymru 2015, 59, <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/section/59/enacted>.

²⁵ Ofqual, *Our Governance*, <https://www.gov.uk/government/organisations/ofqual/about/our-governance>, [Defnyddiwyd 26/01/2021].

²⁶ Deddf Awdurdod Cymwysterau’r Alban 2002, *Advisory Council*, <https://www.legislation.gov.uk/asp/2002/14/section/3>

²⁷ Cyllid Myfyrwyr Cymru, *Pwy sy’n gallu cael cyllid myfyrwyr*, <https://www.studentfinancewales.co.uk/discover-student-finance>, [Defnyddiwyd 16/02/2021].

Trwy alluogi SABau i gyflwyno cymwysterau wedi eu hachredu, gallai cyrsiau fod yn fwy effeithlon a fforddiadwy. Ni fydd SABau yn gaeth i gyflwyno cyrsiau wedi eu breinio gan brifysgolion. Felly, bydd cost cyflwyno rhaglenni yn cael eu gostwng am y bydd dysgwyr yn gallu caffael cymwysterau ar safon Lefel 4 neu Lefel 5 heb fod dyletswydd arnynt o reidrwydd i gwblhau gradd. Yn ogystal, trwy hwyluso SABau i gyflwyno cymwysterau wedi eu hachredu, gall cost cyflwyno rhaglenni fod yn seiliedig ar gyfleusterau presennol yn y lleoliad lle mae'r cwrs yn cael ei gwblhau, yn hytrach na chyfrifiadau yn seiliedig ar gyfleusterau mewn prifysgolion nad ydynt yn cael eu defnyddio gan ddysgwyr sydd wedi ymrestru ar gyrsiau addysg bellach a gyflwynir mewn SABau.

Am y gallai cyrsiau wedi eu cyflwyno gan SABau gael eu cyflwyno am gost is, dylai dysgwyr allu cael mynediad at fenthyciadau myfyrwyr am symiau is na'r rheiny sydd yn cwblhau cymwysterau Lefel 6. Mae hyn felly yn rhoi mwy o opsiynau o ran cyrsiau i ddysgwyr. Mae hyn wedyn yn ysgogi astudio cymwysterau lle mae galw yn y diwydiant am y bydd gan ddysgwyr fynediad at gytundeb ariannol diogel wedi ei sefydlu allai, mewn amgylchiadau priodol, annog hunanariannu.

Dylid ymestyn y cyllid myfyrwyr ar gyfer cyrsiau Lefel 4 a Lefel 5 ynghyd â datblygu ac ymestyn y system bresennol ymhellach.

Datblygu system ddysgu hyblyg

Trwy gydol COVID-19, mae gweithio a dysgu hyblyg ac o bell wedi dod yn fwy amlwg. Mae sefydliadau addysgol wedi treialu opsiynau dysgu digidol ac anghydamserol y tu allan i oriau wedi eu safoni ac yn ddi-os, bydd mwy o'r ymagwedd addysgu a dysgu yma yn parhau.

Mae Colegau Cymru yn eirioli creu a datblygu cymwysterau datblygol, llyfn nad ydynt wedi eu cyfyngu i astudio am gyfnodau sefydlog neu am nifer benodol o oriau yr wythnos. Yn hytrach, byddai creu cyrsiau hyblyg lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus ac yn cael eu haddysgu ar sawl agwedd berthnasol ar draws lefelau gwahanol yn fuddiol i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yng Nghymru. Er enghraifft, gallai fod o fudd cyfuno agweddau ar weinyddu data Lefel 2 gyda sgiliau rheoli prosiect Lefel 4 er mwyn cael cymhwyster sydd yn berthnasol i alwedigaeth.

Mae'n hanfodol bod cymwysterau o'r fath yn cael eu rheoleiddio a'u hachredu'n briodol er mwyn sicrhau bod eu dibynadwyedd yn cael ei gynnal, a'u bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru amlinellu safonau a dulliau asesu sydd yn ofynnol i ddyfarnu cymwysterau o'r fath. Yn ogystal, dylai cyrff dyfarnu weithio'n gydweithredol i nodi cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL) yn fwy cyson, y gellir ei ddefnyddio i gaffael cymwysterau o'r fath.

Unedau dysgu llai, mwy cludadwy

Weithiau, defnyddir unedau dysgu llai, a elwir yn aml yn ficro-gymwysterau, i uwchsgilio cyflogeion er mwyn bodloni anghenion uniongyrchol datblygu'r gweithlu.²⁸ Tra'n bodloni gofynion y gweithle, mae'n hanfodol bod yr unedau hyn yn berthnasol ac o fudd i gyflogeion a chyflogwyr. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn gallu cael eu trosglwyddo ac y gellir eu defnyddio i sefydlu portffolio mwy o gymwysterau wedi eu hachredu. Yn arwyddocaol, dylai cydnabod unedau dysgu bach ddarparu llwybr er mwyn i'r rheiny nad ydynt yn gallu ymrwymo'n llawn i addysg gael cyfle i astudio modiwlau perthnasol. Dylent alluogi dysgwyr i wneud cynnydd i astudio pellach a gweithredu fel llwyfan ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu gyrfa.

Defnydd gwell o brosesau RPL

Mae RPL yn broses sydd yn galluogi darparwyr addysg i gydnabod a gwerthfawrogi sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau blaenorol unigolion waeth ble mae'r rhain wedi eu caffael.²⁹ Wrth adlewyrchu ar arfer gorau rhyngwladol, cred Colegau Cymru nad yw Cymru wedi gwneud digon o ddefnydd o'r dull pwysig hwn o arddangos a diffinio cymhwysedd technegol. Dylai canllawiau gwell fod ar gael ar y defnydd o RPL ar draws y sector addysg bellach ac rydym yn awgrymu y dylai hyn, yn amodol ar yr adolygiad arfaethedig, fod yn swyddogaeth graidd i Gymwysterau Cymru. Bydd hyn wedyn yn galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am y defnydd posibl yn y dyfodol o'r hyn y maent yn ei ddysgu a chwmpas eu cyflawniadau presennol a'u cymhwysedd technegol. Bydd hefyd yn caniatáu i ddysgu neu brofiad blaenorol gael ei gydnabod, yn hytrach na chael ei ailadrodd yn ddiangen, ac yn annog sgiliau trosglwyddadwy i gael eu rhannu.

²⁸ QAA, *Credit where it is due: How can England's credit framework recognise micro-credits?*, <https://www.qaa.ac.uk/news-events/blog/credit-where-it-is-due-how-can-england's-credit-framework-recognise-micro-credits> [Defnyddiwyd 04/02/2021].

²⁹ USW, *Recognition of Prior Learning*, <https://celt.southwales.ac.uk/recognition-prior-learning/> [Defnyddiwyd 09/02/2021].

Y cyfarwyddyd hwn yw'r ail mewn cyfres o bump yn cwmpasu'r themâu a nodwyd yn *Llwyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru Mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes ar gyfer Cymru*.



Ffôn

02920 522 500

Colegau Cymru

U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

E-bost

helo@colegaucymru.ac.uk

Gwefan

www.colegau.cymru